I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod:	W03/69HE
Dyddiad:	2 Rhagfyr 2003
Ymateber erbyn:	23 Ionawr neu 30 Ionawr 2004 (gweler isod)
Gwybodaeth bellach:	Alison Allan

Y GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A CHYNLLUNIAU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2003/04

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2003/04 hyd 2005/06 a chynigion ar gyfer gwariant o dan Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04. Mae'r dull diwygiedig o ddyrannu arian o'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o 2003/04 yn golygu y bydd gwahanol drefniadau ar gyfer gwahanol sefydliadau. Rydym wedi dod â'r rhain ynghyd fel y gallwch weld y trefniadau ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'r llythyr wedi cael ei rannu'n nifer o adrannau i'ch galluogi i ddewis y rheiny sy'n berthnasol i'ch sefydliad chi.

Y rhain yw:	Adran 1:	Cefndir a Chyd-destun: Pob sefydliad
	Adran 2:	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
		Prifysgol Cymru, Bangor
		Coleg y Drindod Caerfyrddin
	Adran 3:	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Adran 4:	Prifysgol Morgannwg
		Prifysgol Caerdydd
		Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
		Prifysgol Cymru Abertawe
		Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru
		Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
		Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd
		Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
		Athrofa Addysg Uwch Abertawe
		Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Byddwch cystal â chysylltu ag Alison Allan os oes gennych unrhyw gwestiynau (029 20682223, alison.allan@hefcw.ac.uk).

Yn gywir

PHILIP GUMMETT

ADRAN 1

CEFNDIR A CHYD-DESTUN: POB SEFYDLIAD

■ Y GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

2 Nododd Cylchlythyr W03/55HE y trefniadau diwygiedig ar gyfer dyrannu arian o'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2003/04 hyd 2005/06, yn sgil ymgynghoriad cynharach (W03/30HE). Nododd hefyd y dyraniadau ar gyfer 2003/04 a'r dyraniadau dros dro ar gyfer 2004/05 a 2005/06.

3 I grynhoi, y trefniadau newydd (wedi'u seilio ar Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o £300,000 ar gyfer 2003/04) yw:

(a) Cronfa greiddiol o **£200,000** ar gyfer Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Cymru, Bangor a Choleg y Drindod Caerfyrddin, wedi'i dyrannu pro-rata i gofrestriadau cyfrwng Cymraeg yn y sefydliadau hyn. Bydd y tri sefydliad yn cyflwyno Cynlluniau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i'r Cyngor fel sylfaen ar gyfer rhyddhau cyllid.

(b) Dyraniad creiddiol o **£48,000** i'w roi i Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg PC ar gyfer prosiectau i ddatblygu darpariaeth mewn sefydliadau eraill yn y sector.

(c) Yn ogystal â gallu ceisio cyllid creiddiol drwy Uned PC, bydd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn derbyn dyraniad creiddiol ar wahân o **£12,000**. Bydd disgwyl i APCC gyflwyno cynlluniau datblygu a gwariant yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r cyllid hwn.

(d) Bydd swm o hyd at **£40,000** yn cael ei ddosbarthu bob blwyddyn ar sail cynnydd mewn cofrestriadau (£400 am bob cofrestriad CALl nes cyrraedd y mwyafswm sydd ar gael). Bydd y dyraniadau ychwanegol yn cael eu talu'n uniongyrchol i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod ac i Uned PC ar gyfer y "grŵp o sefydliadau". Bydd unrhyw arian nad yw'n cael ei ddyrannu yn cael ei ychwanegu at brif gyllideb raglen Uned PC.

Gan na fydd elfen gofrestriadau'r Gronfa yn dod i rym hyd 2004/05, dyrennir swm ychwanegol o £7,500 ym 2003/04 i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod ac ychwanegir £7,500 at gyllid creiddiol y "grŵp o sefydliadau eraill". Bydd y £10,000 sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i gyllideb raglen Uned PC.

Gweler Atodiad A am ddyraniadau 2003/04 (a dyraniadau dros dro 2004/05 a 2005/06 heb yr elfen gofrestriadau).

■ CYD-DESTUN

4 Y mae nifer o ffactorau cyd-destunol sy'n berthnasol i'r ffordd y mae angen defnyddio'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i gefnogi datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ymgeisio'n Uwch

5 Mae'n hollbwysig sicrhau bod y gwaith datblygu sy'n cael ei wneud drwy'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at y targed ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i osod yn ei strategaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, sef:

> Cyfran y myfyrwyr [addysg uwch] mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu o fan cychwyn o 3.4% yn 2000/01 i 7% erbyn 2010.

Felly dylai'r datblygiadau arwain at gynnydd mesuradwy a chynaliadwy mewn cofrestriadau ar amrywiaeth ehangach o gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

6 Sefydlwyd Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg gan y Cyngor yn ddiweddar a fydd yn datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o gyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch*. Bydd hyn yn cwmpasu nifer o feysydd allweddol a nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2003. Y rhain yw:

- Casglu a dadansoddi gwybodaeth briodol a'i diweddaru'n rheolaidd i ddarganfod anghenion ar hyn o bryd a rhagweld galw yn y dyfodol
- Marchnata rhagweithiol a symbylu galw ymysg myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr
- Rhaglenni datblygu a recriwtio staff
- Datblygu darpariaeth newydd a dulliau cyflwyno arloesol
- Creu fframweithiau cydweithiol rhwng sefydliadau
- Sefydlu is-strwythur cefnogol
- Ffurfio partneriaethau gyda sectorau a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

7 Bydd y strategaeth yn nodi materion pwysig, yn cynnig ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain ac yn gosod fframwaith ar gyfer cefnogi datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd gynlluniedig a chydgysylltiedig. Wrth i'r sefydliadau wneud eu cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o fewn eu sefydliadau eu hunain a chyda phartneriaid yn y sector, dylent gymryd i ystyriaeth yr angen iddynt fod yn gyson â'r strategaeth genedlaethol ac iddynt gyfrannu at gyflawni'r strategaeth ddatblygol.

Cynlluniau Iaith Gymraeg

8 Naill ai mae gan y sefydliadau Gynlluniau Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu maent hwy yn y broses o'u paratoi neu eu cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau'r sefydliadau ar gyfer y portffolio o gyrsiau y byddant hwy'n eu cynnig dros gyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg. Dylai fod cydlyniad rhwng y cynigion datblygu a wneir gan sefydliadau o dan y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a'u Cynlluniau Iaith Gymraeg. Fel y digwyddodd o dan y trefniadau blaenorol ar gyfer y Gronfa, bydd cynlluniau'r sefydliadau'n cael eu trafod gyda swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Swyddog Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru

9 Yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor i sefydliadau unigol, mae Dr Ioan Matthews, Swyddog Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg PC, yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu dulliau cydweithiol o estyn darpariaeth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg. Fel y nodir yn yr adrannau sy'n dilyn, bydd yn cymryd rhan lawn yn y trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

Y GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG
DYRANIADAU

1) Dyraniadau Cronfa Greiddiol i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin

	CALloedd Cyfrwng Cymraeg				Dyraniad £
	1999/2000	2000/01	2001/02	CALl Cyfartalog	
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	200.70	202.44	207.72	203.62	43,191
Prifysgol Cymru, Bangor	442.46	463.39	438.07	447.97	95,022
Coleg y Drindod Caerfyrddin	301.37	310.35	262.14	291.29	61,787
			Cyfanswm	942.88	200,000

2) DYRANIADAU O'R GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2003/04

	Cronfa Greiddiol £	Dyraniad Ychwanegol am "Gofrestriadau" £	Cyfanswm y Dyraniad £
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	43,191	7,500	50,691
Prifysgol Cymru, Bangor	95,022	7,500	102,522
Coleg y Drindod Caerfyrddin	61,787	7,500	69,287
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	12,000		12,000
Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru (b)	48,000	7,500	55,500
Is-gyfanswm	260,000	30,000	290,000
Dyraniad ychwanegol i Gyllideb Rhaglenni Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru			10,000
		Cyfanswm	**300,000**

Nodiadau:
(a) Yn 2004/5 a 2005/06 cymerir lle'r elfen hon gan ddyraniadau wedi'u seilio ar gynnydd mewn cofrestriadau fel yr eglurir ym mharagraff 12 (d) ac (e)

(b) Bydd y sefydliadau a ganlyn yn gymwys i wneud cais am yr arian hwn drwy Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru Abertawe
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

3) Y GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG: DYRANIADAU DROS DRO 2004/05 a 2005/06

Yn 2004/05 a 2005/06 bydd y dyraniadau Cronfa Greiddiol canlynol yn cael eu gwneud
(yn amodol ar unrhyw gynnydd a gytunir yn y cyllid creiddiol ar gyfer addysgu)

	Cronfa Greiddiol
	£
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	43,191
Prifysgol Cymru, Bangor	95,022
Coleg y Drindod Caerfyrddin	61,787
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	12,000
Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifsygol Cymru	48,000
Is-gyfanswm	260,000

Dyrennir hyd at £40,000 yn amodol ar gynnydd mewn cofrestriadau ers 2001/02.
Bydd unrhyw swm nas dyrennir yn cael ei ychwanegu at Gyllideb Rhaglenni
Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru

ADRAN 2

PRIFYSGOL CYMRU, ABERYSTWYTH
PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR
COLEG Y DRINDOD CAERFYRDDIN

1 Mae gofyn i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod gyflwyno Cynlluniau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i'r Cyngor fel sylfaen ar gyfer rhyddhau cyllid.

2 Fel y darparwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg mwyaf yn y sector, bydd cyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch* yn dibynnu'n fawr ar lwyddiant y tri sefydliad hyn i ehangu darpariaeth a chofrestriadau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd strategol gyda chynlluniau datblygu clir ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir.

3 Hefyd, wrth ymgymryd â'r cynllunio hwn, mae angen bod yn ymwybodol o'r newidiadau a blaenoriaethau polisi ehangach mewn addysg uwch yng Nghymru sy'n deillio o *Ymgeisio'n Uwch*, yn enwedig ailgyflunio a chydweithio ac ehangu mynediad i addysg uwch. Hefyd mae angen iddo gymryd i ystyriaeth y pwyslais sy'n cael ei roi ar godi statws addysgu mewn addysg uwch a gwella ansawdd a safonau mewn dysgu ac addysgu.

4 Wrth iddynt lunio eu cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, hoffai'r Cyngor weld y tri sefydliad yn eu hystyried nid yn unig yn nhermau eu dyheadau sefydliadol unigol ond hefyd yng nghyd-destun y sector yn ei gyfanrwydd a'r nod o greu mwy o ddarpariaeth mewn amrywiaeth ehangach o bynciau. Hoffai iddynt fod yn fodlon trafod eu cynlluniau â'r Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg newydd fel y gallant gyfrannu at y strategaeth genedlaethol ddatblygol. Bydd am iddynt roi ystyriaeth lawn i'r potensial ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau cydweithiol gyda'i gilydd a sefydliadau eraill yn y sector. Fel y nodwyd yng Nghylchlythyr W03/55HE, bydd y Cyngor yn disgwyl iddynt neilltuo peth o'u dyraniad o dan y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i gydweithio o'r fath.

5 Mae'r tri sefydliad wedi cynhyrchu Cynlluniau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o dan y trefniadau blaenorol ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ac felly byddant yn gallu adeiladu ar y rhain. Ond disgwylir y byddant hefyd yn adolygu'r rhain yn drwyadl yng ngoleuni'r targed yn *Ymgeisio'n Uwch* a'r angen i sicrhau y bydd eu cynlluniau yn eu helpu i gwrdd â'r nodau y maent hwy wedi eu gosod yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

6 Sylweddolir ei bod hi'n cymryd peth amser i ddatblygu cynlluniau tymor canolig i dymor hir o'r math hwn. Yn hytrach na chael y cynlluniau hyn yn gyntaf ac yna ddarparu adborth, hoffai swyddogion y Cyngor, gyda Dr Ioan Matthews, Swyddog Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru, gael cyfle i drafod y cynlluniau drafft gyda'r sefydliadau cyn iddynt gael eu cyflwyno (gweler *Amserlen* isod). Cynigir felly ymgymryd â'r broses mewn camau, gyda chynlluniau llawn yn cwmpasu'r cyfnod o 2003/04 i 2005/06 yn cael eu cyflwyno erbyn mis Mawrth 2004. Yn y blynyddoedd sydd i ddod, byddai'r sefydliadau yn adrodd ar gynnydd ac yn gallu diwygio a mireinio eu cynlluniau.

FFURF A CHYNNWYS Y CYNLLUNIAU

7 Nid yw'r Cyngor yn dymuno pennu union natur y cynlluniau. Mae'n sylweddoli bod yn rhaid iddynt gael eu datblygu mewn ffordd a fydd yn galluogi'r sefydliadau i ymateb i'w hamgylchiadau, strwythurau a blaenoriaethau eu hunain. Serch hynny, y mae rhai elfennau fframwaith allweddol y byddai'r Cyngor yn disgwyl eu gweld yn y cynlluniau ac mae'n dymuno cael darlun clir iawn o'r datblygiadau a gynigir a sut y byddant yn arwain at ragor o gofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Felly dylai'r cynlluniau ymdrin â'r canlynol.

Cynllunio, Rheoli ac Is-strwythur

8 Byddai hyn yn cynnwys y trefniadau sydd gan y sefydliad ar gyfer sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnwys yn glir o fewn cynllunio sefydliadol a chyfrifoldebau uwch reolwyr. Byddai hefyd yn cwmpasu'r polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth a roddir yn eu lle gan y sefydliad i ddarparu amgylchedd y gall darpariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei chyflwyno a'i datblygu o'i fewn. Fel rhan o'i gynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, gellid

disgwyl i'r sefydliad ymgymryd ag asesiad o'i ddarpariaeth bresennol. Awgrymir fframwaith ar gyfer yr elfennau hyn isod:

- *Cenhadaeth Sefydliadol*
- Cenhadaeth a strategaeth gyffredinol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Ei lle o fewn cenhadaeth a strategaeth gyffredinol y sefydliad

- *Cynllunio a Rheoli*
  - Fframwaith cynllunio sefydliadol ac adrannol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg
  - Cyfrifoldebau uwch reolwyr
  - Trefniadau ar gyfer gweithredu'r cynllun
  - Trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso

- *Is-strwythur*
  - Polisïau staffio ac is-strwythurau cymorth, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau recriwtio, a datblygiad staff
- Sicrhau/gwella ansawdd a safonau
  - Marchnata a recriwtio myfyrwyr
  - Cymorth i fyfyrwyr – academaidd, ieithyddol, bugeiliol
  - Cynllunio'r cwricwlwm ac amserlennu

- *Y Sefyllfa Bresennol*
  - Asesiad o sefyllfa bresennol y sefydliad
  - Anghenion/cyfleoedd a nodwyd ac a all godi
  - Gwaith ar y cyd.

Strategaeth Ddatblygu 2003/04 hyd 2005/06

9 Gall y targed ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn *Ymgeisio'n Uwch* fod yn ganolbwynt ar gyfer nodau ac amcanion y strategaeth ddatblygu. Mae'r sefydliadau eisoes wedi nodi cofrestriadau targed yn eu cynlluniau strategol a gyflwynasant i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2003. Er mwyn iddynt allu asesu cynnydd a'r cyfraniad y bydd y gweithgareddau datblygu cynlluniedig yn ei wneud at gyflawni'r targed cyffredinol ar gyfer cofrestriadau, bydd yn bwysig i elfennau unigol y strategaeth ddatblygu gael eu nodau, cerrig milltir a thargedau mesuradwy/gwiriadwy eu hunain.

10 Gellir disgwyl i gynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth fod yn y categorïau a ganlyn:

1) cynyddu nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol
2) estyn y ddarpariaeth o fewn y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol (gallai hyn gynnwys cynlluniau i ddenu myfyrwyr newydd i'r ddarpariaeth estynedig yn ogystal â darparu rhagor o ddewisiadau ar gyfer y lefel bresennol o fyfyrwyr)
3) datblygu darpariaeth o fewn meysydd pwnc newydd.

11 I fod yn gynhwysfawr, byddai'r strategaeth ddatblygu hefyd yn cwmpasu meysydd eraill, megis datblygiad staff, ymchwil marchnata, marchnata a recriwtio, ac ati. Yn ddelfrydol dylai adlewyrchu nid yn unig y gweithgareddau hynny a gefnogir gan y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a'r Premiwn Cyfrwng Cymraeg ond hefyd y rheiny a gynhelir drwy adnoddau eraill y sefydliad. Gallai hefyd ymgorffori gweithgareddau o dan yr agenda ailgyflunio a chydweithio sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu ddatblygiadau a gefnogir drwy Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru. Dylai egluro'r berthynas â Chynllun Iaith Gymraeg y sefydliad os yw wedi cyflwyno un.

Adnoddau

12 O safbwynt y sefydliad, mae'n debyg y bydd ystyried yr holl adnoddau sy'n cyfrannu at gynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei helpu i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr (gweler paragraff 11 uchod).

13 At ddibenion atebolrwydd, bydd y Cyngor yn gofyn am ddatganiad ar y defnydd y bwriedir ei wneud o'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg a'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

14 Pwrpas y Premiwm Cyfrwng Cymraeg yw helpu talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r sefydliad ddangos bod ganddo ddull eglur ar gyfer defnyddio/dosbarthu'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg fel y gellir gweld sut mae'r Premiwm yn cefnogi'n uniongyrchol gynnal a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid nodi cyllid a glustnodwyd o fewn y premiwm ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol. Wrth adrodd ar gynnydd wedyn, bydd disgwyl i'r sefydliad gadarnhau bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio at y pwrpas a fwriadwyd.

Amserlen

15 Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyfnod rhesymol o amser ar y sefydliadau i ddatblygu cynlluniau tymor-canolig llawn. Fel sylfaen ar gyfer rhyddhau'r gyfran gyntaf o'u dyraniadau, mae gofyn i'r sefydliadau gyflwyno gwybodaeth gychwynnol erbyn **23 Ionawr 2004** ynghylch sut y defnyddir eu dyraniad o Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04. Gofynnir iddynt wneud hyn ar y ffurflenni yn Atodiad B. Darperir dwy ffurflen: Ffurflen 1 – Datblygu darpariaeth; Ffurflen 2 – Gwaith datblygu arall. Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob datblygiad (darperir copïau electronig). Gofynnir i'r sefydliadau lenwi'r ffurflen grynodeb yn Atodiad C hefyd i ddangos sut y defnyddir y dyraniad cyfan.

16 Yna bydd y sefydliadau'n parhau i weithio ar eu cynlluniau mwy manwl. Sylweddolir, er y gall rhai datblygiadau gael eu cwblhau o fewn amser byr, y gall peth darpariaeth gael ei datblygu gam wrth gam neu fel rhan o raglen dymor-hir. Felly, er y byddant yn canolbwyntio ar 2003/04 hyd y dyddiad terfynol o 23 Ionawr, rhagwelir y bydd y sefydliadau, erbyn mis Mawrth 2004, yn gallu cyflwyno rhaglen amlinell o weithgareddau o leiaf am y cyfnod hyd ddiwedd 2005/06.

17 Gofynnir i'r sefydliadau hefyd gyflwyno adroddiad erbyn **23 Ionawr 2004** ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynlluniau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a gyflwynasant i'r Cyngor ar gyfer 2002/03, ynghyd â datganiad o wariant ar gyfer dyraniadau Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Phremiwm Cyfrwng Cymraeg 2003/04. Dylai'r datganiad o wariant gael ei wneud ar y ffurflen yn Atodiad D.

18 Os na welir unrhyw broblemau o bwys yn y cynlluniau gwariant neu adroddiadau ar gynnydd, bydd hanner cyntaf dyraniadau Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04 yn cael ei ryddhau ym mis Chwefror 2004.

19 Cynigir gwneud ymweliadau â'r sefydliadau i drafod eu cynlluniau drafft yn ystod mis Chwefror 2004, gyda chynlluniau llawn yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd **mis Mawrth 2004**. Yna câi ail hanner y dyraniadau Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ei ryddhau ym mis Mai 2004. Wrth gwrs mae croeso i'r sefydliadau gysylltu â Dr Alison Allan yn CCAUC neu Dr Matthews i drafod eu cynlluniau ar unrhyw adeg.

ADRAN 3

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU, CAERDYDD

1 Ni ofynnir i APCC gynhyrchu Cynllun Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg llawn. Serch hynny, mae gofyn iddi gyflwyno cynlluniau yn dangos sut y bydd yn defnyddio ei dyraniad uniongyrchol o £12,000 o'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, hoffai swyddogion y Cyngor gael cyfle i drafod ag APCC ynghylch ei chynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei chyfanrwydd a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â chenhadaeth a chynllunio cyffredinol y sefydliad. Felly gall yr arweiniad a gynigiwyd i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod yn Adran 2 fod o gymorth iddi.

2 Pwrpas y dyraniadau Premiwm Cyfrwng Cymraeg a dderbynnir gan APCC yw helpu talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cyngor yn disgwyl i APCC ddangos bod ganddi ddull eglur ar gyfer defnyddio/dosbarthu'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg fel y gellir gweld sut mae'r Premiwm yn cefnogi'n uniongyrchol gynnal a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Wrth adrodd ar gynnydd wedyn, bydd disgwyl i'r sefydliad gadarnhau bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio at y pwrpas a fwriadwyd.

3 Disgwylir y bydd cynigion APCC ar gyfer defnyddio'i dyraniad o'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu darpariaeth, er y gall ddymuno cyflwyno cynlluniau ar gyfer gwaith datblygu arall i'r Cyngor. Gellir disgwyl i gynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth fod yn y categorïau a ganlyn:

1) cynyddu nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol
2) estyn y ddarpariaeth o fewn y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol (gallai hyn gynnwys cynlluniau i ddenu myfyrwyr newydd i'r ddarpariaeth estynedig yn ogystal â darparu rhagor o ddewisiadau ar gyfer y lefel bresennol o fyfyrwyr)
3) datblygu darpariaeth o fewn meysydd pwnc newydd.

4 Fel sylfaen ar gyfer rhyddhau cyllid, mae gofyn i APCC gyflwyno cynlluniau erbyn **23 Ionawr 2004** yn dangos sut mae'n bwriadu defnyddio ei dyraniad o Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04. Gofynnir iddi wneud hyn ar y ffurflenni yn Atodiad A. Darperir dwy ffurflen: Ffurflen 1 – Datblygu darpariaeth; Ffurflen 2 – Gwaith datblygu arall. Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob datblygiad (darperir copïau electronig). Gofynnir i APCC lenwi'r ffurflen grynodeb yn Atodiad B hefyd i ddangos sut y defnyddir y dyraniad cyfan. Gofynnir iddi hefyd gynnwys datganiad ar sut mae'n defnyddio/dosbarthu ei dyraniad Premiwm Cyfrwng Cymraeg o fewn y sefydliad.

5 Gofynnir i APCC hefyd gyflwyno adroddiad erbyn **23 Ionawr 2004** ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a gyflwynodd i'r Cyngor ar gyfer 2002/03, ynghyd â datganiad o wariant ar gyfer dyraniad Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Phremiwm Cyfrwng Cymraeg 2003/04. Dylai'r datganiad o wariant gael ei wneud ar y ffurflen yn Atodiad C.

6 Os na welir unrhyw broblemau o bwys yn y cynllun gwariant neu adroddiad ar gynnydd, bydd dyraniad Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04 APCC yn cael ei ryddhau ym mis Chwefror 2004.

7 Yna trefnir ymweliad ym mis Chwefror neu fis Mawrth 2004, a fydd hefyd yn cynnwys Swyddog Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg PC, i drafod cynlluniau tymor-hir APCC.

ADRAN 4

PRIFYSGOL MORGANNWG
PRIFYSGOL CAERDYDD
PRIFYSGOL CYMRU, LLANBEDR PONT STEFFAN
PRIFYSGOL CYMRU ABERTAWE
COLEG MEDDYGAETH PRIFYSGOL CYMRU
ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU, CAERDYDD
COLEG PRIFYSGOL CYMRU, CASNEWYDD
ATHROFA ADDYSG UWCH GOGLEDD-DDWYRAIN CYMRU
ATHROFA ADDYSG UWCH ABERTAWE
COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

1 Fel y nodwyd uchod yn Adran 1, bydd £55,500 ar gael o Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg y Cyngor yn 2003/04. Gall y sefydliadau uchod wneud cais i Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru am y cyllid hwn.

2 Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig arweiniad ar sut i gyflwyno ceisiadau i'r Uned am y cyllid hwn ar gyfer prosiectau i ddatblygu darpariaeth.

3 Un pwrpas y trefniadau newydd ar gyfer Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg y Cyngor yw darparu fframwaith cefnogol ar gyfer gwaith datblygu, gan gynnwys gweithgareddau cydweithiol, mewn sefydliadau sy'n cynnig cymharol ychydig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

4 Ni fydd disgwyl i'r sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn cyllid o'r gronfa hon gyflwyno cynlluniau strategol llawn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r Cyngor. (Mae'r trefniadau ar wahân ar gyfer y swm o £12,000 mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn ei dderbyn yn uniongyrchol am ei chofrestriadau presennol wedi eu nodi yn Adran 3.)

5 Fodd bynnag, bydd disgwyl iddynt, dan gyfarwyddyd yr Uned, symud darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymlaen mewn modd strategol a fydd hefyd yn gyson â'r cynlluniau y maent wedi eu nodi (neu y byddant yn eu nodi) yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Bydd Dr Ioan Matthews, y Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn cynghori'r sefydliadau ar y cynigion cyn iddynt gael eu cyflwyno.

6 Er mwyn cyrraedd y targed *Ymgeisio yn Uwch* bydd angen cryfhau a chynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol. Ond rhaid cael twf yn yr amrywiaeth o bynciau hefyd, a dylid gwneud hyn i ddechrau drwy gynnig nifer fechan o fodiwlau, neu fodylau unigol, drwy gyfrwng y Gymraeg yn y lle cyntaf.

7 Cynghorir sefydliadau i ganolbwyntio ar nifer fechan o feysydd penodol lle gellir adnabod potensial ar gyfer twf. Mewn meysydd lle mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fychan ar hyn o bryd cefnogir sefydliadau i ystyried y potensial ar gyfer cydweithio, gan gynnwys cynnig modiwlau ar y cyd drwy ddulliau arloesol.

8 Argymhellir yn ogystal bod sefydliadau yn canolbwyntio ar feysydd sydd eisoes yn cael eu datblygu, neu sydd â photensial i gael eu datblygu, drwy'r rhwydwaith o baneli maes a sefydlwyd gan Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru.

9 Fel y nodwyd yn Adran I, mae'r Cyngor newydd sefydlu Grŵp Llywio i gynghori ar ddatblygu strategaeth tymor hir gynaliadwy ar gyfer y cyfrwng Cymraeg. Wrth i'r strategaeth honno esblygu bydd disgwyl i sefydliadau, yn y dyfodol, i gyfeirio at y strategaeth honno wrth gyflwyno ceisiadau.

MEINI PRAWF

10 Nid yw'n fwriad cyfyngu ar natur a chynnwys ceisiadau a gyflwynir gan sefydliadau. Mewn egwyddor gellir gwneud cais am gyllid i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol o fewn unrhyw ddisgyblaeth neu faes. Bydd cais yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os gellir dangos y bydd y gwaith datblygol yn arwain at gynyddu'r ddarpariaeth neu ddatblygu darpariaeth newydd, neu godi nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg . Dylai'r cais fod yn uniongyrchol berthnasol i gyrsiau a addysgir yn y sefydliadau neu sydd yn mynd i gael eu haddysgu yn y dyfodol agos.

11 Derbynnir nad oes modd sicrhau twf sydyn mewn maes lle mae'r ddarpariaeth bresennol yn denau iawn. Serch hynny bydd disgwyl i sefydliadau brofi tystiolaeth am y galw i ddangos sut y bydd y buddsoddiad yn arwain at ganlyniadau, hyd yn oed yn y tymor byr.

12 Bydd Dr Matthews yn darparu cyngor ar y ceisiadau cyn iddynt gael eu cyflwyno, gan gynnwys arweiniad ar berthnasedd yr hyn a gynigir i ddatblygiadau eraill o fewn y sector ac i'r strategaeth a fydd yn cael ei datblygu o dan adain y Grŵp Llywio. Wedi i sefydliad benderfynu cyflwyno cais dylid cysylltu â'r Dr Matthews i drafod y cais cyn ei gyflwyno.

13 Disgwylir i gynigion gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau eraill o fewn y sefydliad gan ddangos sut y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei phrif ffrydio, er enghraifft yng nghyd-destun strategaethau dysgu ac addysgu, dysgu o bell, dysgu gydol oes a dulliau dysgu arloesol.

AMSERLEN

14 Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno erbyn **dydd Gwener 30 Ionawr 2004** ar y ffurflenni yn Atodiad A. Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob datblygiad (darperir copïau electronig). Gall pob sefydliad fod yn gysylltiedig â hyd at dri chais, y gall dau ohonynt fod ar gyfer datblygiadau gan y sefydliad ei hun neu'n gynnig cydweithiol. Os cyflwynir trydydd cais, rhaid i hwn fod yn brosiect cydweithiol gydag o leiaf un partner arall.

15 Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel fydd yn cynnwys tri aelod o'r sector (neu gyda phrofiad o addysg uwch cyfrwng Cymraeg), yn ogystal â chynrychiolaeth o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol.

16 Bydd y Panel hefyd yn ystyried cysylltiadau posibl rhwng y ceisiadau a gyflwynir ac efallai bydd yn awgrymu i'r sefydliadau dan sylw y dylent ystyried dulliau cydweithredol.

17 Gall y panel argymell fod yr arian yn cael ei dalu mewn sawl cyfrandaliad.

18 Dylid pennu llif gwariant ar gyfer dyraniadau o'r gronfa hon fel rhan o'r cais. Rhaid i'r cyllid gael ei wario erbyn 31 Gorffennaf 2005.

19 Bydd y Cyngor yn ysgrifennu at bob sefydliad a dderbyniodd gyllid o dan Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2002/03 i ofyn am adroddiadau ar gynnydd.

ATODIADAU ADRANNAU

Adrannau 2 a 3

CYNLLUNIAU DATBLYGU **ATODIAD A (i)**

Ffurflen 1 Datblygu darpariaeth			
Maes pwnc			
			Ticiwch
a) cynyddu nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg presennol			
b) cynnig mwy o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y meysydd pwnc cyfrwng Cymraeg presennol *drwy*			
i) cynyddu'r elfennau cyfrwng Cymraeg o fewn modiwl			
ii) datblygu modiwlau newydd neu elfennau newydd o fodiwlau o fewn y maes pwnc			
gyda'r nod o i) cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gymerir gan y myfyrwyr presennol a/neu			
ii) annog mwy o fyfyrwyr i gymryd elfennau cyfrwng Cymraeg			
c) datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc newydd.			
Cyfnod datblygu	2004/05	2005/06	2006/07
Rhaglen ddatblygu			
Teitl Modiwl(au)/Cwrs			
Modd			
Nifer y credydau			
Lefel a Chymhwyster			
Asesiad o alw			
Gwaith datblygu i'w wneud (gan gynnwys amserlen)			
Allbwn ar ddiwedd y cyfnod datblygu			

Sut yr ymgymerir â'r gwaith datblygu (e.e. personél)			
Targed ar gyfer nifer y myfyrwyr			
Gweithgareddau marchnata/recriwtio a wneir i gyrraedd y targed ar gyfer nifer y myfyrwyr			
Dyddiad y cyflwynir y ddarpariaeth			
Gwaith ar y cyd â sefydliadau eraill fel rhan o'r datblygiad			
Cyllido			
	2003/04	2004/05	2005/06
Swm £			
Ffynhonnell			
Dadansoddiad			

Ffurflen 2 Datblygiadau eraill			
Disgrifiad byr o'r datblygiad			
Cyfnod datblygu (ticiwch)	2003/04	2004/05	2005/06
Gwaith datblygu i'w wneud (gan gynnwys amserlen)			
Allbwn ar ddiwedd y cyfnod datblygu			
Sut yr ymgymerir â'r gwaith datblygu (e.e. personél)			
Gwaith ar y cyd â sefydliadau eraill fel rhan o'r datblygiad			

Cyllido			
	2003/04	2004/05	2005/06
Swm £			
Ffynhonnell			
Dadansoddiad			

ADRAN 2
ATODIAD B

CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A PHREMIWM CYFRWNG CYMRAEG

Sefydliad:

GWARIANT ARFAETHEDIG DYRANIAD 2003/04

Mae . . . yn bwriadu gwario ei dyraniadau fel a ganlyn:

Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	
Premiwm Cyfrwng Cymraeg	
CYFANSWM	

ATODIAD C

CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A PHREMIWM CYFRWNG CYMRAEG

Sefydliad:

GWARIANT DYRANIAD 2002/03

Mae dyraniadau . . . wedi cael eu gwario fel a ganlyn:

Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	
Premiwm Cyfrwng Cymraeg	
CYFANSWM	

ADRAN 4

UNED DATBLYGU ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG **ATODIAD A**
CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG CCAUC

Sefydliad(au)
Enw cysylltiad: **Ffôn:** **E-bost**

Crynodeb o broffil Cyfrwng Cymraeg y sefydliad(au) (gan gynnwys, lle bo'n briodol, cyfeiriad byr at y targedau Cynllun(iau) Iaith Gymraeg).

Datblygiad Arfaethedig	
Cyllid a geisir **£**	
Swm a ffynhonnell unrhyw gyllid arall a fydd yn cyfrannu at y gwaith datblygu **£**	
Maes pwnc	
Pwrpas y datblygiad	Ticiwch
a) cynyddu nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg presennol	
b) cynnig mwy o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y meysydd pwnc cyfrwng Cymraeg presennol *drwy*	
i) cynyddu'r elfennau cyfrwng Cymraeg o fewn modiwl	
ii) datblygu modiwlau newydd neu elfennau newydd o fodiwlau o fewn y maes pwnc	
gyda'r nod o i) cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gymerir gan y myfyrwyr presennol a/neu	
ii) annog mwy o fyfyrwyr i gymryd elfennau cyfrwng Cymraeg	
c) datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc newydd.	

Rhaglen ddatblygu	
Teitl Modiwl(au)/Cwrs	
Modd	
Nifer y credydau	
Lefel a Chymhwyster	
Asesiad o alw	
Gwaith datblygu i'w wneud (gan gynnwys amserlen)	
Allbwn ar ddiwedd y cyfnod datblygu	
Sut yr ymgymerir â'r gwaith datblygu (e.e. personél)	
Targed ar gyfer nifer y myfyrwyr	

Gweithgareddau marchnata/recriwtio a wneir i gyrraedd y targed ar gyfer nifer y myfyrwyr
Dyddiad y cyflwynir y ddarpariaeth
Gwaith ar y cyd â sefydliadau eraill fel rhan o'r datblygiad
Dadansoddiad o sut y defnyddir y cyllid, ac amserlen